| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **12 HYDREF 2023** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023) i'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 7/11/2023: Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023